Bywyd Gwyllt sy'n cael ei Warchod ac Adeiladau

Canllawiau i Berchnogion eiddo a Datblygwyr



J J Kaczanow / Bat Conservation Trust

- Pa fywyd gwyllt sy'n cael ei warchod?
- Sut fydd dod o hyd i fywyd gwyllt sy'n cael ei warchod yn effeithio ar fy nghynlluniau adeiladu?
- Sut fydda i'n gwybod os oes gen i fywyd gwyllt sy'n cael ei warchod?
- Sut alla i hybu bywyd gwyllt?

Pa fath o fywyd gwyllt sydd i'w cael mewn adeiladu?

Gallwch ddisgwyl dod o hyd i'r bywyd gwyllt a ganlyn mewn adeiladau:

Ystlumod: Nifer o'r 9 rhywogaeth sy'n byw yng Ngogledd Cymru.

Adar: Fel y dylluan wen, gwennol y bondo, gwennol ddu, gwybedog mannog, robin, titw tomos las a llawer mwy.

Anifeiliaid eraill sy'n defnyddio adeiladau yw'r wenynen unigol a chymdeithasol, gwenynen feirch, ymlusgiaid ac amffibiaid, a fydd efallai'n defnyddio waliau adeiladau a'r ardal o gwmpas.



Bywyd gwyllt sy'n cael ei warchod yn gyfreithiol

Mae anifeiliaid sawl rhywogaeth sy'n defnyddio ein hadeiladau'n lleihau o ran niferoedd. I helpu i gadw lefel amrywiaeth bywyd gwyllt y DU mae llawer ohonynt yn cael eu gwarchod gan ddeddfau'r DU ac Ewrop.

Ystlumod: Mae pob rhywogaeth o ystlumod yn cael eu gwarchod gan ddeddfau'r DU ac Ewrop (Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, 1981 a Rheoliadau Cadwraeth yr UE, 1994, ac yn y blaen). Felly mae'n anghyfreithlon lladd, anafu neu aflonyddu ar unrhyw ystlum neu rwystro mynediad i unrhyw le sy'n cael ei ddefnyddio gan ystlum fel lloches neu fan cysgodi (sef eu man clwydo, fel arfer) hyd yn oed os nad yw'r ystlumod yno ar y pryd.

Adar: Mae'n anghyfreithlon fel arfer i ladd, anafu neu ddal unrhyw aderyn gwyllt yn fwriadol, yn ogystal â chymryd, difrodi neu ddinistrio nyth unrhyw aderyn gwyllt pan fo'n cael ei ddefnyddio neu'n cael ei adeiladu (dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, 1981). Mae ambell i rywogaeth o adar wedi'u gwarchod ymhellach, fel y dylluan wen (dan yr un Ddeddf) ac mae'n drosedd hyd yn oed aflonyddu'n fwriadol ar yr adar hyn pan fyddant yn adeiladu eu nythod neu'n eu defnyddio.

Os ydych yn amau fod rhywun yn torri'r deddfau uchod, ffoniwch **Heddlu Gogledd Cymru** - llinell ar gyfer achosion nad ydynt yn rhai brys: **0845 607 1001** (Cymraeg) neu **0845 607 1002** (Saesneg).

Pa arwyddion gallaf edrych amdanynt?

Mae'r un deddfau'n berthnasol ar gyfer gwarchod bywyd gwyllt os ydych yn gwneud cais am ganiatâd cynllunio ai peidio. Cyn dechrau unrhyw waith, neu gyflwyno cais, dylech edrych i weld os oes bywyd gwyllt yno.

Dyma rai arwyddion i chi chwilio amdanynt:

1. Mae'n bosibl y bydd y **dylluan wen** yn gadael ei baw yn strimyn gwyn ar brennau'r to a'r waliau ac mae'n gadael plu a phelenni (gweddillion llwyd ysglyfaeth a chwydwyd) tua maint bawd oedolyn. Mae'r nyth yn cynnwys haen o belenni ar fan gwastad wedi ei amgáu, fel rhwng byrnau neu ar danc dŵr sych, neu ar lawr groglofft neu atig, neu hyd yn oed tu mewn i simnai.







2. Mae'r **wennol, y wennol ddu a gwennol y bondo** yn adeiladu eu nythod yng ngofod y to, ar ystyllod neu oddi danynt ac ar silffoedd neu'r tu allan o dan y bondo. Maent yn dod i mewn i adeilad drwy dwll dan y bondo, dan y bargodion, dan estyll y bondo, drwy lechi sydd wedi'u torri neu drwy ddrysau a ffenestri a adawyd ar agor. Hyd yn oed os nad oes modd cyrraedd y nythod, gallwch weld yn rhwydd ble maent yn hedfan iddo ac ohono.

3. Mae **ystlumod** yn fach iawn ac maent yn gallu swatio unrhyw le mewn adeilad, heb i chi wybod am hynny. Gallwch ddod o hyd iddynt o dan y llechi, y bondo, yn y wal geudod neu gallant ddefnyddio talcenni'r tŷ, silffoedd ffenestri, astell dywydd, y porth neu'r seler. Ar wahân i weld yr ystlumod, yr arwydd amlycaf o'u presenoldeb yw eu baw, sy'n edrych fel baw llygod, ond sy'n briwsioni'n rhwydd ac sy'n cynnwys olion trychfilod.

Sut mae hyn yn effeithio arna i?

Os ydych yn meddwl gwneud gwaith adfer (fel trin prennau'r groglofft, aildoi'r tŷ, garej neu adeilad allanol, addasu ysgubor neu ddymchwel adeilad) dylech fod yn gyfarwydd a'r anifeiliaid all gael ei heffeithio. Gorau po gyntaf y byddwch yn cysylltu â'r awdurdod perthnasol, fel bo modd cynnwys unrhyw waith archwilio neu newidiadau i'r rhaglen waith.

- Mae cronfa ddata o gofnodion biolegol yn cael ei chadw yn Cofnod - Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru. Am dâl bychan gallwch ofyn am gael chwilio'r gronfa hon i weld a oes hanes o rywogaethau sy'n cael eu gwarchod ar safle'r datblygiad. (Caiff yr awdurdod cynllunio wneud hyn i'r rhai sy'n gofyn am ganiatâd cynllunio).
- Os oes rhywogaethau wedi'u gwarchod ar y safle, neu os yw'n debygol eu bod yno, efallai bydd rhaid i chi gyflogi ecolegydd proffesiynol i gynnal arolwg ecolegol ac asesu effaith eich ceisiadau.
- Os ydych yn canfod rhywogaethau sy'n cael eu gwarchod ar y safle, efallai bydd angen newid rhywfaint ar y cynllun. Gall hyn gynnwys:

  - mynedfa fechan i fywyd gwyllt;

  - darparu safleoedd nythu eraill, neu osod blwch nythu / silff ar gyfer bywyd gwyllt;

  - cyfyngu'r gwaith i adeg benodol y flwyddyn.
- Os ydych yn gwneud cais am ganiatâd cynllunio, ac os oes rhywogaeth sy'n cael eu gwarchod ar y safle, bydd angen i chi ddangos sut fyddech yn diogelu'r rhywogaeth a'i chynefin yn ystod y gwaith ac ar ôl hynny. Efallai na fydd modd ystyried y cais heb y manylion hyn.
- Os ydych yn canfod rhywogaethau sy'n cael eu gwarchod gan ddeddfwriaeth Ewropeaidd, fel ystlumod, bydd angen i chi wneud cais am drwydded gan Llywodraeth Cynulliad Cymru i darfu ar yr anifeiliaid.
- Mae rhagor o fanylion am yr uchod i'w cael gan eich Awdurdod Cynllunio Lleol (gweler y dudalen nesaf).
- Os ydych yn canfod bywyd gwyllt sy'n cael ei warchod ar ôl dechrau gwaith adeiladu, dylech roi gwybod i **Gyngor Cefn Gwlad Cymru** ar unwaith drwy **Ffonio: 01248 385500.**

  Gall y cosbau am dorri deddfwriaeth rhywogaethau wedi eu gwarchod fod yn llym, gyda dirwyon trwm ac/neu garchar.

Beth allaf ei wneud i hybu bywyd gwyllt yn fy adeilad?

Mae nifer o wahanol ffyrdd i chi helpu i ddiogelu bywyd gwyllt drwy wneud mân newidiadau i'ch adeilad. Dyma rai awgrymiadau i chi:

- Annog gwenoliaid i nythu drwy osod silff nythu gwastad yn uchel y tu mewn i adeilad. Gosodwch gynfas blastig dan y nyth i gasglu'r baw adar.
- Mae nythod artiffisial ar gael i'w prynu ar gyfer gwennol y bondo. Maent yn cael eu gosod ar ford a'u gosod y tu allan i fondo.
- Mae modd addasu hen ysguboriau, ysguboriau newydd ac adeiladau allanol i fod yn addas ar gyfer y dylluan wen, drwy osod croglofft fechan gyda ffenestr neu osod blwch nythu tylluan wen.
- Gallwch ddenu ystlumod trwy osod blychau iddynt, ond gwell fyth fyddai addasu adeiladau i sicrhau bod ystlumod yn gallu cael mynediad iddynt drwy ddefnyddio 'briciau ystlumod' a mynedfeydd to bychan.
- Mae rheoli tir cyfagos yn ystyriol, hefyd yn hanfodol ar gyfer anifeiliaid yn ystod y gwaith adnewyddu ac ar ôl hynny. Gallwch helpu bywyd gwyllt drwy gadw a gwella nodweddion fel gwrychoedd, pyllau, coed llawn twf a glaswelltir garw.

Mae rhagor o wybodaeth sut i wneud eich adeilad yn lle addas ar gyfer bywyd gwyllt ar gael oddi wrth y mudiadau a ganlyn:

RSPB: **www.rspb.org.uk**
Bat Conservation Trust: **www.bats.org.uk**
Barn Owl Trust: **www.barnowltrust.org.uk**
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol: **www.nationaltrust.org.uk**
www.actionforswifts.com/nestsites.htm

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw beth ar y daflen hon, cysylltwch â:

viewcreated.co.uk